CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Senedd Finance Committee Consultation: Welsh Government Draft Budget proposals for 2026-27

*****

## Diben yr ymgynghoriad

Mae Pwyllgorau'r Senedd yn ceisio gwybodaeth i lywio eu gwaith craffu ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Rydym yn awyddus i drafod y disgwyliadau o ran cyllideb 2026-27, gan gynnwys parodrwydd ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 ac effaith cyllideb 2025-26.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ar gyllideb Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol, trosfwaol. Rydym hefyd yn gweithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd i sicrhau bod y cynigion ar gyfer adrannau penodol, neu bortffolios Cabinet penodol, yn cael eu hystyried yn fanwl.

Hoffai'r Pwyllgor ofyn eich barn ar y cwestiynau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr ymgynghori (PDF, 209KB) ac unrhyw sylwadau cyffredinol eraill sydd gennych ar y gyllideb ddrafft.

1. **What, in your opinion, has been the impact of the Welsh Government's 2025-2026 Budget?**

Mewn cyd-destun ariannol heriol, mae Cyllideb 2025-2026 Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i osgoi nifer o risgiau tymor byr, ac wedi cyrraedd ei thargedau uchelgeisiol i leihau rhestrau aros y GIG. Serch hynny, fel yr amlygwyd yn Adroddiad Ymgysylltu Cryno y Pwyllgor Cyllid, ni chafwyd ymdriniaeth gystal â rhai risgiau tymor hwy.

Cyrhaeddodd yr argyfwng sy'n cael ei achosi gan system gyllido anghynaliadwy y prifysgolion y penawdau newyddion eleni, er bod lleisiau'n agos at y sector (gan gynnwys Cymdeithas Ddysgedig Cymru) wedi rhybuddio'r Senedd ynghylch hyn ers blynyddoedd. Mae'r pwyllgor a'r Llywodraeth yn deall yn iawn beth yw effeithiau uniongyrchol yr argyfwng: mae cau cyrsiau yn golygu bod Cymru yn wynebu bylchau o ran sgiliau, tra bod peryg i ostyngiad yn nifer y staff cymorth effeithio ar lesiant myfyrwyr, ac ar fynediad i brifysgol ymhlith grwpiau nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol.

Fodd bynnag, ni cheir dealltwriaeth gystal o effeithiau hirdymor, ac maent yn dyngedfennol o ran sicrhau bod Cymru yn ffynnu yn dyfodol. Mae'r ansefydlogrwydd sy'n cael ei achosi gan yr argyfwng presennol eisoes wedi peri bod talent blaenllaw orfod adleoli y tu allan i Gymru, ac mae peryg i hynny barhau. Anaml y caiff swyddogaeth ymchwil ac arloesi prifysgolion ei chydnabod mewn dadleuon cyhoeddus, ond mae'n chwarae rhan hanfodol ac anhepgor yn economi Cymru: nid yn unig yn uniongyrchol, ond hefyd drwy gynnydd cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n arbed arian yn y tymor hir. Mae llawer o'r blaenoriaethau a amlygir yn yr adroddiad ymgysylltu wedi'u hategu gan ymchwil ac arloesedd:

- Rhoddwyd hwb i'r Diwydiannau Creadigol drwy gyllid y DU ac arloesi a arweiniwyd gan brifysgolion, er enghraifft Clwstwr a Media Cymru yn Ne Cymru. Mae Cynghrair Celfyddydau a Dyniaethau Cymru (rhaglen Rhwydwaith Arloesi Cymru) yn hyrwyddo consortia newydd yng Nghymru er mwwyn denu mwy o gyllid i dyfu'r Economi Greadigol yng Nghymru.
- Mae angen gwyddoniaeth, ymchwil, datblygiad ac arloesi ar gyfer yr ymgyrch a gartrefi cynhesach a gwyrddach, er mwyn sicrhau bod newid yn effeithiol ac yn arbed cymaint o ynni ag sy'n bosibl am bob punt a fuddsoddir. Er enghraifft, mae cydweithrediad trawsffiniol mewn ymchwil Dylunio a ariennir drwy gyllid grant UKRI a chyllid craidd Llywodraeth Cymru, yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn Ne

Cymru i ôl-osod stoc tai cyngor presennol: Addas at y dyfodol: ailfodelu cartrefi er mwyn gwthio y tu hwnt i sero net.

- Er mwyn i Gymru lwyddo i bontio i ynni cartref cynaliadwy, mae angen gwyddoniaeth ac ymchwil sy'n sensitif i le gan brifysgolion Cymru a sefydliadau arloesi. Ar hyn o bryd mae gan Gymru arbenigwyr sy'n flaenllaw yn y byd ym maes ynni adnewyddadwy sy'n gweithio ar brosiectau, gan gynnwys cydweithio â diwydiant i ddatblygu ynni'r llanw yng Ngogledd Cymru.
- Mae arloesi yn y Gwasanaeth Iechyd yn allweddol wrth edrych ar y tymor hir, ac yn arbennig o bwysig lle bo cyllid yn her. Cynhaliodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru a Thechnoleg Iechyd Cymru fforwm ar y cyd o arbenigwyr i wneud argymhellion ar gyfer arloesi yn y Gwasanaeth Iechyd, yn enwedig o ran Technolegau Meddygol. Gellir darllen yr argymhellion cryno yma: Arloesi i Gymru ym maes Technoleg Feddygol.

Ar hyn o bryd mae'r system addysg uwch, ymchwil ac arloesi yn cefnogi cynnydd sylweddol ar draws yr holl feysydd hyn, ond mae diffyg cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru yn amharu ar allu'r prifysgolion i gystadlu am symiau mawr o gyllid allanol (fel cyllid oddi wrth UKRI a'r UE).

Darperir cyllid ymchwil yn y DU drwy'r 'system gymorth ddeuol' sy'n cynnwys dwy ffrwd ariannu ar wahân ond wedi'u cydblethu; cyllid prosiectau cystadleuol o ffynonellau allanol, a chyllid a ddarperir gan y cyrff ariannu cenedlaethol (Medr yng Nghymru). Cyllid ar gyfer prosiectau ymchwil diffiniedig, o fewn amser cyfyngedig, yw'r cyllid gan gyrff fel UKRI, elusennau, diwydiant neu asiantaethau eraill y llywodraeth, ac mae cystadlu mawr amdano. Mae adroddiadau diweddar gan Brifysgolion y DU yn dangos bod prifysgolion yn rhedeg diffyg o ran y cyllid grant hwn ar gyfer prosiectau penodol: bwriedir iddo dalu hyd at 80% o'r gost economaidd lawn am ymchwil, ond mewn gwirionedd, nid yw ond yn talu 69.3% o'r gost ar gyfartaledd[1]. Mae'r cyllid ymchwil datganoledig a ddarperir gan gyrff ariannu fel Medr ac Ymchwil Lloegr yn ffynhonnell o gyllid heb ei neilltuo sy'n gallogi sefydliadau i fuddsoddi yn y seilwaith tanategol sydd ei angen i gefnogi ceisiadau am gyllid cystadleuol. Mae hyn yn cynnwys cyllid QR (sy'n gysylltiedig ag ansawdd), a nifer o gronfeydd datblygu nad ydynt ar gael yng Nghymru fel cronfa Datblygu Ymchwil Lloegr (RED). Dyma yw'r buddsoddiad sydd felly'n sicrhu bod gan brifysgolion Cymru y capasiti a'r ystwythder i gystadlu â phrifysgolion ledled y DU am gyfran o fuddsoddiad mewn ymchwil o ffynonellau allanol.

[1] Opportunity, growth and partnership: a blueprint for change - Prifysgolion y DU, 2024.

Fel mae'r ffigurau gan Medr yn ei amlinellu, mae Cymru'n gyson yn derbyn llawer llai o gyllid na phrifysgolion Lloegr a'r Alban o'r potiau datganoledig hyn.

2. **How financially prepared is your organisation for the 2026-27 financial year, how confident are you that you can deliver planned objectives, and how robust is your ability to plan for future years?**

Mae gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru sylfaen ariannol sefydlog ar gyfer y dyfodol agos, sy'n gymesur â maint presennol yr elusen. Fodd bynnag, gan fod 29% o'n cyllid yn dod o brifysgolion, ac 18% arall gan ein cymrodyr, y mae llawer ohonynt yn cael eu cyflogi gan brifysgolion, mae peryg y gallai Academi Genedlaethol Cymru ddioddef effeithiau yn y tymor hwy.

Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw Academi Genedlaethol Cymru ar gyfer y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Ein diben elusennol yw hyrwyddo gwybodaeth, a grym ymchwil ac arloesi er budd economi a chymdeithas Cymru. Mae Academïau Cenedlaethol yn gyfrwng i arbenigwyr blaenllaw gynorthwyo i lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn cefnogi cymunedau gwyddoniaeth, y celfyddydau a'r dyniaethau yng Nghymru drwy adeiladu capasiti a rhoi grantiau i ymchwilwyr gyrfa gynnar. Rydym hefyd yn cynrychioli Cymru yn y gymuned wyddoniaeth ac ymchwil ryngwladol, gan sefydlu Cymru fel economi wybodaeth sy'n rhoi gwerth ar benderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn sicr, mae'r cyd-destun ariannol presennol wedi amharu ar allu'r Gymdeithas i dyfu a manteisio ar botensial llawn ein cymuned o fwy na 700 o arweinwyr dinesig, academaidd a busnes sydd eisiau rhoi yn ôl i Gymru. Yn 2016, argymhellodd Adolygiad Diamond y dylid cynyddu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas Ddysgedig Cymru fel Academi Genedlaethol Cymru, gan gyd-fynd â lefelau'r cyllid a dderbynnir gan Gymdeithas Frenhinol Caeredin oddi wrth Lywodraeth yr Alban. "Dylai Cymdeithas Ddysgedig Cymru dderbyn £1m o gyllid y flwyddyn, wedi'i gyfeirio drwy CCAUC yn erbyn cyfres o amcanion y cytunir arnynt rhwng y Gymdeithas a CCAUC, gan ystyried heriau a blaenoriaethau pwysig i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol." Derbyniwyd yr argymhellion gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae setliadau heriol i Medr oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi amharu ar weithredu'r cynnydd hwn: wyth mlynedd ar ôl yr adolygiad, bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn derbyn £356,980 yn 25/26 gan Medr, sy'n llawer llai na'r £1m a argymhellir (sy'n hafal i £1.38m yn 2025), ac mae hynny'n cyfyngu

ar gapasiti'r Gymdeithas i wasanaethu Cymru mewn modd sy'n cyfateb i'w sefydliadau perthynol yng Nghaeredin, Dulyn, a Llundain.

3. **What action should the Welsh Government take to: – help households cope with cost of living issues; – address the needs of people living in urban, post-industrial and rural communities, including building affordable housing and in supporting economies within those communities?**

Gall ymchwil, arloesi a datblygu gefnogi newid bob dydd i gymunedau lleol, nid datblygiadau mewn technoleg fawr yn unig (gweler Arloesi Cynhwysol i Gymru - Cymdeithas Ddysgedig Cymru).

Mae ymchwilwyr wedi bod yn poeni ers tro am faterion fel tai, cymunedau, a'r economi (gweler yr enghreifftiau o dan gwestiwn 1). Gyda Medr yn annog mwy o ffocws ar genhadaeth ddinesig, mae gan brifysgolion Cymru ran enfawr i'w chwarae o ran cefnogi pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig. Er enghraifft, mae'r cynllun a ariennir gan UKRI Partneriaeth Polisi ac Arloesi'n Lleol ar gyfer y Gymru Wledig yn dod â phrifysgolion a chynrychiolwyr dinesig ynghyd mewn cenhadaeth gyffredin i ddatblygu economi ar gyfer cefn gwlad Cymru sy'n creu cyfiawnder cymdeithasol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, ar blaned iach lle mae dinasyddion yn cymryd rhan weithredol yn eu cymunedau.

Fodd bynnag, mae'r cyd-destun ariannol heriol i brifysgolion nid yn unig yn rhwystro twf ond yn peryglu gwaith pwysig fel hyn yn y dyfodol, gyda thoriadau nid yn unig yn effeithio ar staff academaidd, ond hefyd ar staff proffesiynol sydd â chyfrifoldeb am bartneriaethau lleol, dinesig a chymunedol. Mae cyllidebau olynol sy'n tangyllido prifysgolion o gymaharu â Lloegr a'r Alban yn amharu ar allu Cymru i gipio'r grantiau ymchwil ac arloesi pwysig hyn o'r tu allan i Gymru.

4. **Have Welsh Government business support policies been effective, given the economic outlook for 2026-27?**

5. **Are Welsh Government plans to build a greener economy clear and sufficiently ambitious? Do you think there is enough investment being targeted at tackling the climate change and nature emergency? Are there any potential skill gaps that need to be addressed to achieve these plans?**

Mae angen buddsoddiad sylweddol mewn ymchwil ac arloesi i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyrraedd Sero Net, yn enwedig mewn cyfnod lle bo prifysgolion Cymru mewn argyfwng ariannol.

Rhoddir enghreifftiau yn yr ateb i gwestiwn 1, ond mae cannoedd yn fwy o fentrau ar y gweill ym mhrifysgolion Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Nid elw sy'n ysgogi'r datblygiadau hyn mewn gwyddoniaeth ac ymchwil ond budd y cyhoedd, ac maent yn y fantol oherwydd diffyg cynaliawydedd ariannol y sector.

6. **Is the Welsh Government using the financial mechanisms available to it around borrowing and taxation effectively?**

7. **The Committee would like to focus on a number of other specific areas in the scrutiny of the Budget. Do you have any specific comments on any of the areas identified below?**
   - Is enough being done to tackle the rising costs of living and support those people living in relative income poverty?
   - How could the budget further address gender inequality in areas such as healthcare, skills and employment?

Mae iechyd menywod yn flaenoriaeth a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru, a rhaid i hyn gynnwys buddsoddiad ystyrlon mewn ymchwil. Ceir diffyg ymchwil cronig i iechyd menywod[2], felly mae angen targedu buddsoddiad o fewn ymchwil y gwyddorau iechyd er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb di-syfl hwn.[3] Mae lefel gyfredol y cyllid ymchwil craidd ar gyfer prifysgolion yng Nghymru (sy'n sylweddol is o ran cyfran na Lloegr a'r Alban) yn peryglu cynnydd ym maes ymchwil Iechyd Menywod.

- Is the Welsh Government’s approach to preventative spending represented in resource allocations (Preventative spending = spending which focuses on preventing problems and eases future demand on services by intervening early).

Mae angen gwariant ataliol yn y sector ymchwil, yn enwedig yn ystod cyfnod o argyfwng i brifysgolion Cymru. Ymdrech ofer i arbed arian yw tanfuddsoddi mewn

[2] Women’s health research lacks funding – these charts show how – Nature, 2023.
[3] Iechyd Menywod yng Nghymru – GIG Cymru, 2022.

ymchwil. Canlyniad hynny yw colli cyfleoedd i arbed costau a chynyddu effeithlonrwydd ar draws y sector cyhoeddus (yn enwedig y GIG), ynghyd â chyfleoedd am dwf economaidd y ceir angen mawr amdano drwy arloesi.

- How should the Welsh Government explain its funding decisions, including how its spending contributes to addressing policy issues?
- How can the documentation provided by the Welsh Government alongside its Draft Budget be improved?
- How should the Welsh Government prioritise its resources to tackle NHS waiting lists for planned and non-urgent NHS treatments. Do you think the Welsh Government has a robust plan to address this issue?

Fel y soniwyd o dan gwestiwn 1, yn ôl arbenigwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, bydd ecosystem Arloesi ym maes Technoleg Feddygol sy'n ffynnu yng Nghymru yn ysgogi mewnfuddsoddiad, arbedion i gostau'r GIG, a chanlyniadau gwell o ran iechyd i gleifion. Gellir darllen yr argymhellion cryno yma: Arloesi i Gymru ym maes Technoleg Feddygol.

- Is the Welsh Government providing adequate support to the public sector to enable it to be innovative and forward looking through things like workforce planning?

Soniodd Adroddiad Ymgysylltu Cryno y Pwyllgor am y cyfleoedd a gynigir o ran effeithlonrwydd yn sgil deallusrwydd artiffisial. Byddem yn argymell ymgynghori ag arbenigwyr i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud gyda dealltwriaeth lawn o'r risgiau a'r cyfleoedd mwyaf arloesol. Yn ei rôl unigryw fel cynullydd gwybodaeth annibynnol, casglodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru arbenigwyr o bob disgyblaeth a sector i gynhyrchu briff sy'n amlinellu'r hyn i chwilio amdano mewn offeryn AI dibynadwy, ac ystyriaethau ar gyfer llunwyr polisi yn y maes hwn: AI a Chymru.

- Has there been adequate investment from the Welsh Government in basic public sector infrastructure?

Yn y sector ymchwil, byddai gallu a seilweithiau cenedlaethol yn creu arbedion o ran cost ac effeithlonrwydd, o gymharu â dyrannu grantiau llai wedi'u dyblygu ar

draws sefydliadau. Byddai'r ymagwedd hon hefyd yn cynyddu gallu Cymru i gystadlu am gyllid sylweddol ar raddfa'r DU ac yn rhyngwladol.

- How should the Budget support young people?

Mae ymchwilwyr ifanc ymhlith y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan doriadau yn y sector ymchwil. Mae'r argyfwng addysg uwch yn peryglu cyflenwad Cymru o dalent ar gyfer ymchwil a gwyddoniaeth ragorol.

- How is evidence and data driving Welsh Government priority-setting and budget allocations, and is this approach clear?
- Is the support provided by the Welsh Government for third sector organisations, which face increased demand for services as a consequence of the cost of living crisis and additional costs following increases to National Insurance Contributions, sufficient?
- What are the key opportunities for the Welsh Government to invest in supporting an economy and public services that better deliver against the well-being goals in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

Arbediad byrdymor yw tanfuddsoddi mewn prifysgolion, ac mae hynny'n achosi niwed hirdymor i genedlaethau'r dyfodol o bobl ledled Cymru – os ydyn nhw'n mynychu prifysgol ai peidio.

- Am bob £1 a fuddsoddir ym Mhrifysgolion Cymru daw £13 yn ôl i'r cyhoedd.[4]
- Ar adeg pan fo ymddiriedaeth mewn gwleidyddion yn lleihau, mae ymddiriedaeth mewn gwyddoniaeth yn parhau i fod yn uchel, gyda chanran enfawr o 77% o bobl yng Nghymru yn mynegi ymddiriedaeth mewn gwyddonwyr.[5]
- Mae 71% o bobl yng Nghymru yn credu ei bod hi'n bwysig i Gymru wneud llawer o ymchwil a datblygu (cyfartaledd y DU yw 70%).[6]
- Mae pobl yng Nghymru ymhlith y rhai mwyaf awyddus o holl ranbarthau'r DU i weld gwleidyddion yn rhoi mwy o sylw i

[4] Effaith Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru.
[5] More in common, Shattered Britain, 2025.
[6] Agweddau'r Cyhoedd at YaD: Dadansoddiad Rhanbarthol.

| | |
|---|---|
| | wyddoniaeth ac arloesi (61% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 56%).[7] |
| | • Dim ond 23% oedd yn cytuno â'r datganiad "Ni ddylai YaD gael ei ariannu gan drethdalwyr" (llai na cyfartaledd y DU o 24%).[8] |
| | |

Yn sgil sefydlu Medr a Rhwydwaith Arloesi Cymru, ochr yn ochr ag Academi Genedlaethol sy'n meithrin talent pobl ar sawl cam yn eu gyrfa, mae Cymru mewn sefyllfa dda i fabwysiadu ymagwedd uchelgeisiol a chydweithredol at ennill grantiau o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, er mwyn gweld llwyddiant wrth gystadlu am gyllid rhyngwladol, mae angen cael digon o fuddsoddiad sylfaenol i gadw'n gyfuwch â gweddill y DU. Ymdrech ofer i arbed arian, felly, yw tanfuddsoddi mewn ymchwil, a chanlyniad hynny yw colli cyfleoedd am dwf economaidd teg drwy arloesi.

[7] Agweddau'r Cyhoedd at YaD: Dadansoddiad Rhanbarthol.
[8] Agweddau'r Cyhoedd at YaD: Dadansoddiad Rhanbarthol.